**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 17 Mehefin 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| E J King | A S Lewis | A Pugh |
| R V Smith | A H Stevens | M Thomas |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr):L S Gibbard

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

**1. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

Datganodd y Cynghorwyr E J King ac R V Smith gysylltiad personol â Chofnod 10 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol".

Datganodd y Cynghorwyr M C Child, A H Stevens ac M Thomas gysylltiad personol â Chofnod 13 "Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Chronfa Datblygu Cynaliadwy - AoHNE Gŵyr - Cynnig Cyllid Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru".

Datganodd y Cynghorwyr M C Child, R Francis-Davies ac R V Smith gysylltiad personol â Chofnod 14 ac 16 "Partneriaethau Hamdden - Cymorth Ariannol 2021/2022" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

Datganodd y Cynghorwyr D H Hopkins ac E J King gysylltiad personol â Chofnod 19 "Awdurdodi rhaglen Gyfalaf ar gyfer Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg 2021/22".

## 2. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir, yn amodol ar ddiwygio'r dyddiad yng Nghofnod 127 o 2020 i 2021.

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Mai 2021.

## 3. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 4. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 6. Cefnogi Adferiad Addysg.

Cyflwynodd y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer eu hargymhellion mewn perthynas â Chefnogi Adferiad Addysg.

**Penderfynwyd:**

1) Caiff pob ysgol ei chefnogi a'i monitro i gynnal a gwella'r dulliau dysgu cyfunol a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2) Datblygu ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a lles emosiynol.

3) Bydd y broses o ledaenu arfer da'n systematig mewn dysgu cyfunol a chefnogi iechyd a lles emosiynol yn cael ei chyflymu.

## 7. Canlyniad Ariannol Refeniw 2020/2021.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnwys manylion yr alldro refeniw ar gyfer 2020-21.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig a nodir yn Adran 7.3 ac Adran 7.4 yr adroddiad.

## 8. Alldro Refeniw 2020/21 - Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn manylu ar alldro Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Dinas a Sir Abertawe o'i gymharu â'r gyllideb refeniw gymeradwy ar gyfer 2020-2021.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig gwerth £903,000 a nodir yn Adran 2.1 yr adroddiad.

## 9. Alldro a Chyllido Cyfalaf 2020/21.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn manylu ar yr alldro cyfalaf a'r arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r gyllideb gyfalaf fwyaf erioed o £251m.

2) Cario tanwariant net y gyllideb gyfalaf gynyddol gwerth £46.954m ymlaen i 2021-22.

## 10. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd y Gors | Patricia Ann Morgan |
| Ysgol Gynradd St Thomas | Y Cyng. Clive Lloyd |
| Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan | Y Cyng. Sam Pritchard |
| Ysgol Gymunedol Dylan Thomas | Adrian Rees |
| Ysgol Gyfun Gŵyr | Ian Morris |

## 11. Awdurdodi'r rhaglen gyfalaf ar gyfer ailfodelu ardal llawr caled a gosod maes 2G ar dir yn Ysgol Gyfun Pontarddulais.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i neilltuo £254,000 i'r rhaglen gyfalaf a oedd yn cynnwys cyllid fel a ganlyn:

£200,000 gan Gyngor Abertawe.

£30,000 gan Gronfa Chwarae Cyngor Abertawe.
£15,000 gan Gronfa Gyfalaf Aelodau Cyngor Abertawe.
£9,000 gan Gyllideb Gymunedol Aelodau Ward.

Y cynllun yw ailfodelu ardal o lawr caled a gosod cyfleuster arwyneb 2G sy'n addas ym mhob tywydd ar y tir presennol yn Ysgol Gyfun Pontarddulais.

**Penderfynwyd:**

Neilltuo £254,000 i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer ailfodelu ardal chwarae arwyneb caled (hen gyrtiau tenis) a gosod cyfleuster arwyneb sy'n addas ym mhob tywydd 2G yn dilyn cadarnhad o gyllid gwerth cyfanswm o £254,000 gan Gyngor Abertawe fel y nodir uchod.

## 12. Cynyddu nifer y lleoedd a gynlluniwyd ar gyfer Ysgol Pen-y-bryn.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymgynghoriad ac yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gynyddu'r lleoedd cynlluniedig yn Ysgol Arbennig Pen-y-bryn o fis Ionawr 2022.

**Penderfynwyd:**

1) Cyhoeddi hysbysiad statudol i gynyddu'r lleoedd arfaethedig yn Ysgol Pen-y-bryn o fis Ionawr 2022.

2) Mae'r Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol ac yn penderfynu ar ganlyniadau'r cynnig yn eu cyfarfod ym mis Medi 2021.

## 13. Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Cronfa Datblygiad Cynaliadwy - AoHNE Gwyr - Cynnig Cyllid Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i dderbyn dau gynnig ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau penodol sy'n dod i gyfanswm o £325,000 yn unol â Rheol 5.7 y Weithdrefn Ariannol. Cynigir y cyllid ar 100% o gostau'r prosiect ac nid oes angen arian cyfatebol.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn y ddau gynnig ariannu (cyfanswm o £325,000) gan Lywodraeth Cymru, er mwyn galluogi datblygu a chyflawni'r prosiectau yn 2021/22.

## 14. Cymorth ariannol i bartneriaethau hamdden 2021/2022.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y lefelau cymorth ariannol yr oedd eu hangen ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 i Fawrth 2022 ar gyfer y Bartneriaethau Hamdden (Freedom Leisure, Parkwood Leisure a Phwll Cenedlaethol Cymru

Abertawe Cyf) oherwydd colledion a gafwyd a chynllun adfer ariannol cysylltiedig yn ymwneud â phandemig COVID-19.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo estyniad i ryddhad ariannol Freedom Leisure tan 31 Mawrth 2022 i gynnwys y cyngor yn gwarantu diffyg gweithredol o hyd at £2m, yn ogystal â thalu'r ffi reoli fisol gontractiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022, yr holl daliadau rhyddhad i'w cysoni dan ymagwedd agored.

2) Cymeradwyo estyniad i ryddhad ariannol Parkwood Leisure tan 31 Mawrth 2022 i gynnwys y cyngor yn gwarantu diffyg gweithredol o hyd at £44,000, yn ogystal â thalu'r ffi reoli fisol gontractiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022, yr holl daliadau rhyddhad i'w cysoni dan ymagwedd agored.

3) Cymeradwyo estyniad i ryddhad ariannol Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (PCCA) i gynnwys y cyngor yn gwarantu diffyg ychwanegol o hyd at £300,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022.

4) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd gytuno ar unrhyw newidiadau i fanyleb gwasanaeth, yr amodau a thelerau sydd ynghlwm wrth unrhyw gynnig o warantu neu fesurau cymorth eraill gan gynnwys awdurdod i amrywio lefel a chyfnod y rhyddhad ariannol ar yr amod bod cyfanswm yr holl amrywiadau o'r fath o fewn cwmpas y cymeradwyaethau cyllideb gyfunol ar gyfer rhyddhad ariannol yn argymhellion 1-3.

5) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol i lunio unrhyw ddogfennaeth sy’n angenrheidiol i roi unrhyw un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ar waith ac i ddiogelu buddiant y cyngor.

## 15. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 16. Cymorth ariannol i bartneriaethau hamdden 2021/2022.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y lefelau cymorth ariannol yr oedd eu hangen ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 i Fawrth 2022 ar gyfer y Bartneriaeth Hamdden (JR Events & Catering) oherwydd colledion a gafwyd a chynllun adfer ariannol cysylltiedig yn ymwneud â phandemig COVID-19.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 17. Gwaredu tir ym Mro Tawe, Llansamlet, Abertawe.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i waredu tir ym Mro Tawe i hwyluso datblygiad ystafell arddangos ceir newydd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor ar gyfer gwaredu.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 18. Gosod Theatr y Palace, Prince of Wales Rd, Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i roi prydles newydd ar gyfer Theatr y Palace gan fod y rhent blynyddol arfaethedig yn uwch na chyfyngiadau'r awdurdod dirprwyedig.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad

## 19. Cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg 2021/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnig cyfalaf a geir yn y Cais Cyllido Cyfalaf a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Rhaglen Dechrau'n Deg 2021/22 ac i ymrwymo'r cynllun i'r rhaglen gyfalaf yn unol â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 17 Mehefin 2021 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59 ar 22 Mehefin 2021 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 23 Mehefin 2021 |